CYNGOR BRO LLANLLWNI.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 8 Mai 2017 am 8.00yh. Cyflwynwyd y fantolen flynyddol i'r aelodau, ac arwyddwyd y ffurflenni priodol gan y Cadeirydd sef y Rheolau Sefydlog. Cynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd croeso cynnes i'r pedwar cynghorwyr newydd: Hefin Harries, Andrew Thomas, Meinir Evans ac Emrys Evans. Penderfynwyd yn unfrydol i anfon llythyron o ddiolch am eu gwasanaeth i'r ardal i'r cynghorwyr a oedd wedi ymddeol: Tom Jones (50 mlynedd), Tom Bowen (40 mlynedd), David Thorne (40 mlynedd) ac Emyr Evans (20 mlynedd).

SWYDDOGION
Etholwyd y canlynol: Cadeirydd, Eric Davies; Is-gadeirydd, Dewi Thomas;
Penderfynwyd gwahodd David Thorne i weithredu fel Gohebydd y Wasg.

CWMNI RES
Doedd dim datblygiadau pellach.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o wybodaeth gan Williams & Bourne yn nodi y byddai'r ddogfen derfynol yn cael ei anfon at y Clerc yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd angen cysylltu â Chyngor Sir Gâr er mwyn iddyn nhw archwilio'r adnoddau chwarae. Penderfynwyd llogi toiledau gan Kangaloos o 1 Mehefin – 30 Medi 2017.
Byddai angen agor bwlch i'r cae newydd yn y man.

YSGOL SUL YR EGLWYS, LLANLLWNI
Cafwyd cadarnhad bod Meinir Evans wedi dechrau gwneud rhestr o anghenion.

CWARE MOWNT.
Roedd y gwaith wedi'i gwblhau.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mawrth ar y wefan, ac wedi ymddangos yn Clonc ac yn Clecs Bro Cader.

CYSGODFAN BWS
Cadarnhawyd gan Linda Evans y bydd y gysgodfan yn cael ei glanhau.

SBWRIEL GER PONT Y RHEILFORDD – GWARCWM:
Doedd dim datblygiad pellach. Penderfynwyd bod Linda Evans â'r Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

NINANT – PONTDULAIS – TRO BEECHES

Mae angen gosod llinellau dwbwl ac arwyddion i atal ceir rhag pasio loriau yn y mannau hyn. Roedd y Clerc wedi ebostio'r Cyngor Sir ond dim datblygiad pellach. Cynigiwyd gan Linda Evans y byddai yn holi am hyn eto.

LLYWODRAETHWYR YR YSGOL
Etholwyd Meinir Evans i Fwrdd y Llywodraethwr.

LLYWODRAETH CYMRU
Cyflwynwyd y llyfryn CANLLAW'R CYNGHORYDD DA AR GYFER CYMUNED A THREF i'r Cynghorwyr.

COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDU
Penderfynwyd gan y Cynghorwyr ymgeisio am y grant i gymunedau gan gyflwyno cais yn nodi'r canlynol:

1. Prynwyd y cae chwarae er lles y gymuned.
2. Ehangwyd y cae chwarae.
3. Sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth iddyn nhw barcio yn y cae.

Penderfynwyd cefnogi'r Diwrnod o Hwyl. Bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r Ysgol, y Cylch Meithrin, CFFI Llanllwni a'r Clwb ar ôl Ysgol. Penderfynwyd cefnogi'r Ŵyl Cerdd Dant yn Llandysul ac Urdd Gobaith Cymru, Llangrannog.

TYLLAU YN YR HEWL
Hewl gefn Ffynonddrain - Beilibedw.
Gwarcwm – Pont y Rheilffordd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 10 Gorffennaf 2017 am 8.00yh.